

AMGUEDDFA CYMRU



AMGUEDDFA FYW, IAITH FYW

**Polisi Amgueddfa Cymru i Gynyddu ein
Defnydd Mewnol o'r Gymraeg
2026-29**

amgueddfa.cymru



Cynnwys

1. Ein defnydd mewnol o'r Gymraeg

- Neges gan y Prif Weithredwr 3
- Ein nod hirdymor 4
- Cyflwyniad 6

2. Ein polisi

- Sut i ddefnyddio'r polisi 7
- Y gofynion i unigolion 13
- Y gofynion i dimoedd/safleoedd 15
 - Arweinyddiaeth a diwylliant 15
 - Magu hyder a sgiliau 16
 - Seilwaith a chefnogaeth 18

Ein Defnydd Mewnol o'r Gymraeg – Neges gan y Prif Weithredwr



Ges i fy magu yn Sunderland, ond pan oeddwn i'n dod i Gymru ar wyliau i weld fy ngheulu roedd pawb yn siarad Cymraeg. Oni isho dysgu, felly wnes i benderfynu dysgu Cymraeg trwy'r coleg ym Mhwlheli fel oedolyn. Erbyn heddiw, dwi'n mwynhau gallu gweithio yn Gymraeg, mae fy mhlant mewn ysgolion Cymraeg a dwi'n byw mewn cymuned naturiol Gymraeg yn y Gogledd.



Dyna flas ar fy nhaith i â'r Gymraeg hyd yn hyn.

Ble wyt ti ar dy daith â'r iaith? Wyt ti'n siaradwr rhugl sy'n byw a bod yn Gymraeg? Wyt ti wedi bod trwy addysg Gymraeg ond heb gael llawer o gyfle i'w defnyddio ers hynny? Falle dy fod yn siaradwr newydd eisiau magu hyder i ddefnyddio dy sgil newydd? Mae taith pawb yn unigryw ond ble bynnag wyt ti ar dy daith â'r iaith, rwyf ti'n rhan o ddyfodol y Gymraeg, ac yn bwysig i'r iaith yma yn Amgueddfa Cymru.

Mae'r polisi yma i bawb ym mhob adran a phob safle, achos mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd. Mae'n rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl a hunaniaeth Amgueddfa Cymru. Mae'r Gymraeg yn rhan o'n casgliadau ni, ein treftadaeth a'n diwylliant, ac yn rhan o'n bywydau bob dydd – yn y gwaith a thu hwnt. Mae'n rhan o'r profiad rydyn ni'n ei rhoi i'n hymwelwyr ym mhob un o'n safleoedd, ac yn rhan o'n ffyrdd o weithio a'n gweledigaeth.

Felly, fel aelod gwerthfawr o Amgueddfa Cymru, ac fel rhywun sy'n byw yn y wlad hyderus, amlddiwylliannol ac amlieithog hon, ble ei di nesa ar dy daith â'r iaith? A sut all Amgueddfa Cymru dy helpu ar hyd y daith honno?

Mae'r polisi hwn yn nodi dechrau taith i ni fel corff o newid a datblygu er mwyn cynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg. Ond mae'n daith rydyn ni arni gyda'n gilydd, yn daith o ddathlu a defnyddio'r Gymraeg sydd gyda ni. Ymlaen!



**Jane Richardson, Prif Weithredwr
2025**

Ein nod hirdymor ar gyfer y Gymraeg yn Amgueddfa Cymru:

Rhwng nawr a 2050, dyma fydd ein nod hirdymor
ar gyfer y Gymraeg o fewn Amgueddfa Cymru:

**Mae Amgueddfa Cymru
yn lle i ni i gyd ddefnyddio,
mwynhau a chefnogi'r
Gymraeg ble bynnag ydym
ni ar ein taith gyda'r iaith,
gan ddangos a dathlu ei
bod yn rhan annatod o'n
casgliadau a'n profiadau.**



Cyflwyniad

Cyd-destun

Dyma bolisi Amgueddfa Cymru er mwyn datblygu a chynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg. Mae'n adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn unol â'r Safonau Iaith Gymraeg.

Mae ei wreiddiau yng ngofynion y Safonau, ond mae hefyd yn mynd tu hwnt i gydymffurfiaeth ble bynnag y bo modd ac yn gosod ein huchelgais a'n cyfeiriad hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Mae'n adlewyrchu'r ymdrech genedlaethol i greu gweithleoedd sy'n cefnogi dau brif amcan strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050*, sef

- Cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Dyblu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, erbyn 2050.

Mae'r polisi yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ac yn benodol y nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', ac yn adlewyrchu thema arbennig Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2025-2030 sef blaenoriaethu gweithleoedd fel llefydd allweddol i gynyddu'r defnydd bob dydd o'r iaith.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru, felly mae gan Amgueddfa Cymru ran allweddol i'w chwarae yn ei ffyniant, boed hynny trwy brofiadau ein hymwelwyr neu brofiadau ein staff. Mae ein hamgueddfeydd a'n safleoedd yn ganolfannau cadarn i'r Gymraeg yn eu cymunedau, lle mae'r iaith yn cael ei gweld, ei chlywed, ei defnyddio a'i dathlu. Maen nhw hefyd yn weithleoedd deinamig a chynhyrchiol all fod yn allweddol wrth gynyddu nifer y siaradwyr a'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym eisoes yn mynd tu hwnt i gydymffurfiaeth ac yn arloesi ar agweddau o'r gwaith hwn ond rydym yn awyddus i sicrhau bod hyn yn wir ym mhob agwedd ar ein gwaith mewnol.

MAE
59%
0 STAFF
AMGUEDDFA
CYMRU YN
GALLU SIARAD
CYMRAEG



Diben y polisi

Bydd y polisi hwn yn cefnogi ein holl staff, gan gynnwys ein Hymddiriedolwyr, Gwirfoddolwyr a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, i deimlo bod y Gymraeg yn rhan greiddiol a naturiol o'u profiad o weithio i Amgueddfa Cymru a'u bod yn cael pob cyfle posibl i'w defnyddio a'i mwynhau wrth eu gwaith bob dydd. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb – waeth ble ydych chi ar eich taith â'r iaith.

Drwy weithio i Amgueddfa Cymru, byddwn ni oll yn teimlo perchnogaeth o'r Gymraeg a balchder wrth ei defnyddio a'i chefnogi. Bydd ein gweithluoedd yn llefydd cysurus sy'n cefnogi pawb i ddefnyddio, dysgu, datblygu neu gefnogi'r Gymraeg.

Trwy greu awyrgylch o ddathlu'r iaith sydd gennym, gallwn greu gweithleoedd sy'n galluogi'n staff i fyw a gweithio yn eu dewis iaith a gweithlu sy'n gweithredu yn naturiol Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae pob un ohonom ar ein taith unigryw ein hun â'r iaith a byddwn yn eich cefnogi ar bob cam o'r daith honno.

Bydd y polisi yn ddogfen fyw fydd yn esblygu ac yn newid i adlewyrchu sefyllfa gyfredol Amgueddfa Cymru. Bydd yn cael ei blethu drwy gynlluniau, strategaethau a fframweithiau corfforaethol eraill Amgueddfa Cymru, gan gynnwys y Polisi Iaith Gymraeg cyhoeddus, yn ogystal â chanllawiau a gweithdrefnau mwy ymarferol. Pwrpas y polisi yw sicrhau ein bod yn arwain y gwaith o greu a chynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.



Cymraeg

**BYDDWN
YN EICH
CEFNOGI AR
BOB CAM O'CH
TAITH Â'R IAITH**

Themâu allweddol

Mae'r polisi'n cynnwys rhestr o ofynion i bob unigolyn gydymffurfio â nhw, yn ogystal â gofynion ehangach i dimoedd a safleoedd sydd wedi'u rhannu'n dair thema:

1. **Arweinyddiaeth a diwylliant:** creu a chynnal diwylliant sy'n ein galluogi i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r sefydliad.
2. **Magu hyder a sgiliau:** cefnogi pawb i deimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw.
3. **Seilwaith a chefnogaeth:** sicrhau bod ein gweithdrefnau a'n prosesau yn creu amgylchedd ble gall y Gymraeg ffynnu, gan gynnwys ein defnydd o dechnoleg, materion cyflogaeth, cyfieithu a chreu cynnwys Cymraeg.

Cymraeg

**MAE
89%
O'N STAFF
SYDD DDIM
YN SIARAD
CYMRAEG YN
TEIMLO FOD
Y GYMRAEG
YN DESTUN
BALCHDER**



Egwyddorion craidd

Yn allweddol i lwyddiant y polisi hwn, mae'r egwyddorion canlynol:

- Grymuso ein staff i fod yn ddefnyddwyr hyderus o'r iaith ac yn gefnogwyr brwd o'r Gymraeg yn y gwaith a thu hwnt
- Creu diwylliant sy'n parchu a hybu hawl ein staff i ddefnyddio'u Cymraeg ac yn cefnogi defnydd dyddiol o'r Gymraeg
- Cydnabod cymeriad, demograffeg ac amgylchiadau ieithyddol unigryw pob un o'n safleoedd a gweithio gyda chryfderau'r safle i lunio cynllun datblygu defnydd mewnol wedi'i deilwra i'r safle o fewn teulu Amgueddfa Cymru
- Chwilio am bob cyfle – bach a mawr, ffurfiol ac anffurfiol – i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ein gwaith
- Sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a'n bod yn chwilio am bob cyfle i'w dathlu a'i blaenoriaethu.

Cymraeg





Cymraeg

Monitro cynnydd

Bydd ein gwaith yn seiliedig ar ymchwil lleol a rhyngwladol a data meintiol ac ansoddol ble bynnag y bo modd. Yn sail i'r polisi hwn, gwnaed gwaith ymchwil helaeth i faes cynllunio a pholisi iaith a chasglwyd data manwl am y defnydd cyfredol o'r Gymraeg yn fewnol gan gynnwys defnydd ffurfiol ac anffurfiol, yn y gwaith a thu hwnt; agweddau tuag at yr iaith; hyder i'w defnyddio; iaith addysg y staff; mynediad at hyfforddiant ac yn y blaen.

Yn ogystal â defnyddio data defnydd a niferoedd siaradwyr, byddwn yn defnyddio gwahanol ddulliau i gasglu data ategol wrth ystyried meysydd penodol, e.e. data defnydd gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, data dadansoddol fel niferoedd defnyddwyr rhyngwynebaw neu dudalennau gwe, neu gyfweiliadau neu grwpiau ffocws gydag unigolion neu dimoedd allweddol.

Yn ogystal â nod cyffredinol hirdymor Amgueddfa Cymru 2050 ar gyfer y Gymraeg (tudalen 4), byddwn yn pennu amcanion meintiol yn seiliedig ar ddata ar gyfer safleoedd unigol yn rhan o'u cynlluniau datblygu unigol ar gyfer cynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg. Cytunir ar amserlen yr amcanion hynny gyda'r safleoedd unigol.

Byddwn yn cynnal yr arolwg staff bob tair blynedd er mwyn mesur ein cynnydd a phrofi llwyddiant ein mentrau a'n cynlluniau.

Ochr yn ochr â'r polisi hwn, byddwn yn llunio cynllun gweithredu ar gyfer Amgueddfa Cymru gyfan er mwyn datblygu mentrau fydd yn cynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg. Byddwn yn adolygu'r polisi ac yn llunio cynllun gweithredu newydd bob tair blynedd. Byddwn yn cyhoeddi compendiwm o'r data a gesglir yn rhan o'r cynllun gweithredu.


Bydd Pwyllgor Monitro'r Gymraeg a Chydraddoldeb, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu yn monitro'r cynnydd, gan adrodd i'r Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu, sef un o is-bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Rheolwr y Gymraeg fydd yn arwain y gwaith o wireddu'r polisi, gyda chymorth y Fforwm Arweinyddiaeth a phob adran o fewn y corff a chan gynnull grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer gwaith allweddol, er enghraifft llunio'r cynllun gweithredu neu brojectau neu fentrau penodol.

Continwwm iaith

Rydyn ni'n deall fod cymeriad, demograffeg ac amgylchiadau ieithyddol pob un o'n safleoedd yn unigryw. Er mwyn gweithio gyda chryfderau ein gwahanol safleoedd, a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn modd ystyrlon a phwrrpasol, byddwn yn llunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer pob un o'n safleoedd, gan gychwyn gydag Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Wlân Cymru am eu bod mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, cyn troi at weddill ein safleoedd yn eu tro.



Bydd y cynlluniau unigol yn mapio lleoliad y safle ar hyd 'continwwm iaith' – llwybr cynnydd i bob pwrpas – gyda'r nod o symud pob safle unigol ar hyd y continwwm dros amser.



Ein Polisi

Sut i ddefnyddio'r polisi

Mae'r polisi hwn ar gyfer cymuned gyfan Amgueddfa Cymru – ein staff, gwirfoddolwyr, Ymddiriedolwyr a Chynhyrchwyr – rydyn ni oll yn gyfrifol am gydymffurfio â'r polisi.

Mae'r adran 'Gofynion i unigolion' (tudalen 13) yn rhestru'r disgwyliadau sylfaenol ar gyfer pob aelod o gymuned Amgueddfa Cymru, ar bob cam o'u taith â'r iaith.

Mae'r adran 'Gofynion i dimoedd/safleoedd' (tudalen 15-20) yn cynnwys rhagor o fanylion am wahanol feysydd gwaith, ac ar gyfer arweinwyr safleoedd a thimoedd yn bennaf.

Os ydych fel tîm neu safle eisoes yn bodloni gofynion Polisi Amgueddfa Cymru, dylech anelu at fynd tu hwnt i gydymffurfiaeth. Mae syniadau ac enghreifftiau o sut i wneud hyn yn y colofnau Rhagweithiol ac Arloesol, i'w cytuno ar y cyd â Rheolwr y Gymraeg yn rhan o drafodaeth ehangach.

Mae'n bur debygol y bydd rhai timoedd a safleoedd eisoes yn gweithredu ar lefel Rhagweithiol neu Arloesol. Byddwn yn trafod hyn wrth lunio cynllun datblygu unigol ar gyfer safle. Sylwer y gellid defnyddio cyfuniad o'r categorïau ar gyfer cynllun datblygu safle unigol.



Polisi Amgueddfa Cymru	Rhagweithiol	Arloesol
Mae disgwyl i bawb gydymffurfio â'r categori hwn, Polisi Amgueddfa Cymru.	Syniadau ac enghreifftiau o sut i fynd tu hwnt i gydymffurfiaeth.	Syniadau ac enghreifftiau o sut i fynd tu hwnt i gydymffurfiaeth.

Y continwwm iaith



Y gofynion i unigolion:

Yn unol â'r polisi hwn, gofynnir i bawb wneud y canlynol:

Defnyddio llofnod e-bost dwyieithog (canllawiau yma)	Gosod neges llaisbost dwyieithog (canllawiau yma)
Cofnodi lefel eich Cymraeg ar CIPHR (guidelines here)	Wrth wneud penderfyniadau sy'n berthnasol â defnydd mewnol o'r Gymraeg, llenwch y ffurflen asesiad effaith
Cofnodi eich manylion ar y Fewnrwyd: - Teitl eich swydd yn Gymraeg ac yn Saesneg - Pa iaith/ieithoedd rydych chi'n eu siarad	Yn rhan o'ch proses rheoli perfformiad (PDR) blynyddol, defnyddiwch y Cynllun Datblygu Sgiliau Cymraeg i bennu eich nod ar gyfer y flwyddyn a chytuno ar amserlen a chefnogaeth gyda'ch rheolwr llinell. Wedi i chi lwyddo, nodwch hyn yn eich cofnod cynnydd ar Twf, yna cynllunio'r cam nesaf.
Ydych chi'n ysgrifennu blogs, erthyglau neu gynnwys yn rhan o'ch gwaith? Gallech wneud hyn yn Gymraeg os hoffech chi, a naill ai creu fersiynau Saesneg eich hun neu drafod gyda'r tîm Cyfieithu. Os nad ydych chi'n hyderus yn ysgrifennu yn Gymraeg eto, gall y tîm Cyfieithu eich mentora neu gallwch ddewis hyfforddiant mwy ffurfiol o'r fwydlen hyfforddiant.	Yn ein gohebiaeth, ein cyhoeddiadau a'n hysbysiadau swyddogol cofiwch gynnwys y frawddeg hon 'Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.'
Gwisgo lanyard neu fathodyn iaith Gwaith os ydych chi'n siarad neu'n dysgu Cymraeg.	Mynychu pob hyfforddiant sy'n ddisgwyliedig ohonoch mewn perthynas â'r Gymraeg e.e. RingCentral, cynefino, tîm, cyfadran ac ati.
Cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg cyhoeddus y corff	Cymryd pob cyfle i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg a'r defnydd ohoni
Anfon unrhyw adborth neu gwynion am y Gymraeg o fewn Amgueddfa Cymru at Reolwr y Gymraeg yn unol â'r Weithdrefn Rheoli Cwynion ac Adborth.	
Os byddwch chi'n cynrychioli Amgueddfa Cymru mewn cynhadledd, mewn print, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ati, allwch chi gefnogi'r Gymraeg rywsut? Beth am greu sleidiau dwyieithog ar gyfer eich cyflwyniad, neu gyflwyno'n Gymraeg a defnyddio cyfieithu ar y pryd? Beth am gynnwys ychydig o Gymraeg mewn blog Saesneg neu neges ar y cyfryngau cymdeithasol?	

Waeth faint o Gymraeg sydd gennych, neu ba mor hyderus ydych chi wrth ddefnyddio'ch iaith, ceisiwch fachu ar bob cyfle i ddefnyddio'ch iaith yn y gwaith. Os nad ydych chi'n siarad Cymraeg, cefnogwch yr iaith â balchder – yn y gwaith a thu hwnt.

Y gofynion i dimoedd/safleoedd

- 1.** Arweinyddiaeth a diwylliant: creu a chynnal diwylliant sy'n ein galluogi i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r sefydliad.

Polisi Amgueddfa Cymru	Tu hwnt i gydymffurfiaeth	
	Rhagweithiol	Arloesol
Mae ein harweinwyr ar bob lefel yn fodelau rôl i bob agwedd ar y polisi hwn a'r Gymraeg, trwy: • ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt • datgan bod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr • nodi'n glir bod y Gymraeg yn angen busnes ar draws y sefydliad • treialu mentrau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg e.e. yng nghyfaryfodydd y Bwrdd • dathlu enghreifftiau gwyb o ddefnyddio a chefnogi'r iaith. • annog eu timoedd a safleoedd i sicrhau bod y cynnydd yn rhan o brosesau rheoli perfformiad (PDR) ar bob lefel		Rydym yn dathlu llwyddiannau'r rheini sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg trwy gynnal digwyddiad, cefnogi ein dysgwyr ac ysbrydoli eraill.
Mae'r Gymraeg yn bwnc allweddol ym mhob agwedd ar waith strategol y sefydliad gan gynnwys yn ei strategaethau, cynlluniau, fframweithiau a dogfennau strategol; ac yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd rheoli.		
Mae ein harweinwyr yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwaith partneriaeth strategol e.e. • trwy ein memoranda cyd-ddealltwriaeth • trwy rwydweithiau a chydbwyllgorau.		

2. Magu hyder a sgiliau: cefnogi pawb i deimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw.

Polisi Amgueddfa Cymru	Tu hwnt i gydymffurfiaeth	
Mae cyfleoedd hyfforddi ffurfiol ar gael i gefnogi pob aelod o staff i ddysgu, datblygu a defnyddio ei sgiliau iaith trwy'r cynllun datblygu sgiliau unigol a'r broses rheoli perfformiad (PDR), gan gynnwys: • darpariaeth dysgu'r iaith • ymwybyddiaeth iaith a diwylliant • Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog (arweinwyr) • defnydd mewnol effeithiol o'r Gymraeg • sgiliau a hyder i ysgrifennu yn Gymraeg	Rhagweithiol	Arloesol
		Rydym yn hyrwyddo 'Cymraeg Goddefgar' o fewn y sefydliad, sef dealltwriaeth ddigonol o'r Gymraeg i'n caniatáu i gynnal cyfarfodydd a gweithredu yn y Gymraeg.
Rydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol allanol e.e. y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu hyfforddiant ar draws y corff.		Mae gennym diwtor Cymraeg Gwaith yn gweithio'n llawn amser gydag Amgueddfa Cymru
Mae darpariaeth anffurfiol ar gael i gefnogi staff ar eu taith iaith gan gynnwys clybiau sgwrsio, cynlluniau cyfaill, siaradwyr gwadd, corau neu grwpiau a digwyddiadau cymdeithasol anffurfiol.	Mae staff yn cynnal grwpiau diwylliant Cymraeg i drafod llyfrau, ffilmiau, celfyddyd ayyb yn Gymraeg.	

Polisi Amgueddfa Cymru	Tu hwnt i gydymffurfiaeth	
Cynhelir hyfforddiant gorfodol a dewisol am bynciau eraill yn Gymraeg gan gynnwys - hyfforddiant cynefino - hyfforddiant diweddarau ar y polisïau iaith a chydymffurfiaeth - recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, delio â'r cyhoedd, iechyd a diogelwch ac ati - Defnyddio technoleg yn Gymraeg	Rhagweithiol	Arloesol
	Cynigir hyfforddiant Cadernid Iaith i siaradwyr Cymraeg er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn eang o fewn y gwaith.	Rydym yn cynnal rhaglen o siaradwyr allanol i rannu eu taith â'r iaith gyda'n staff.
Rydym yn peilota ac yn gwerthuso cynlluniau cynyddu defnydd gyda thimoedd, safleoedd neu grwpiau penodol ar draws y corff e.e. rhaglen ARFer Prifysgol Bangor		

3. Seilwaith a chefnogaeth: sicrhau bod ein gweithdrefnau a'n prosesau yn creu amgylchedd ble gall y Gymraeg ffynnu, gan gynnwys ein defnydd o dechnoleg, materion cyflogaeth, cyfieithu a chreu cynnwys Cymraeg.

Polisi Amgueddfa Cymru	Tu hwnt i gydymffurfiaeth	
	Rhagweithiol	Arloesol
Mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o bolisiâu, gweithdrefnau a phwyllgorau gwaith adrannau craidd gan gynnwys Technoleg a Digidol, Adnoddau Dynol a Chyllid.		
Defnyddir technoleg i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a hwyluso gweithio'n ddwyieithog, gan gynnwys: • gosod meddalwedd a rhyngwynebau'n ddiofyn • defnyddio'r cynnig rhagweithiol • defnyddio cyfieithu peiranyddol ar gyfer gohebiaeth fewnol e.e. Teams, e-byst ac ati		
Gall staff weinyddu pob agwedd ar eu cyflogaeth gyda ni yn Gymraeg.		
Caiff adnoddau eu dyrannu'n strategol er mwyn hwyluso gweithio dwyieithog e.e. gwarantir partneriaid busnes Cymraeg ar gyfer safleoedd sy'n gweithredu yn Gymraeg	Gwarantu partner busnes Cymraeg ar gyfer adrannau sy'n gweithredu yn Gymraeg.	

Polisi Amgueddfa Cymru		Tu hwnt i gydymffurfiaeth	
		Rhagweithiol	Arloesol
Mae pob agwedd ar ein prosesau recriwtio a chyfweld yn hybu'r Gymraeg a'i defnydd, gan gynnwys: • prosesau pennu gofynion iaith swyddi a'u mapio • cynnwys y Gymraeg wrth gyfweld waeth beth yw'r gofynion iaith • Y defnydd o gyfieithu ar y pryd lle bo angen • Arbrofi/addasu ein dulliau hysbysebu swyddi er mwyn cyrraedd mwy o siaradwyr Cymraeg.		Byddwn yn meithrin cysylltiadau gyda sefydliadau addysg lleol i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gwaith a chreu cyfleoedd profiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae AC yn gwarantu cyfweliad i siaradwyr Cymraeg (sy'n diwallu gofynion y swydd).
Mae holl sianeli cyfathrebu mewnol canolog Amgueddfa Cymru yn ddwyieithog gan gynnwys negeseuon Sgwrs; e-byst o gyfrifon torfol fel Pobl@ neu negeseuon gan unigolion at gyfeiriadau torfol fel 'ACNMW notices' neu gyfeiriadau penodol i safle; y Fewnrwyd.		Defnyddir dull lluosieithog o ymgorffori'r Gymraeg mewn testun Saesneg ble bynnag y bo modd.	Mae'r Fewnrwyd (neu system gyfatebol) yn awtomeiddio rheoli cyhoeddi cynnwys dwyieithog.
Defnyddir cyfieithu ar y pryd i hwyluso gweithio dwyieithog e.e. mewn cyfarfodydd canolog dethol fel y Fforwm Arweinyddiaeth, sesiynau briffio staff, Grŵp Monitro'r Gymraeg a Chydraddoldeb.		Defnyddir cyfieithu ar y pryd (neu ddulliau eraill) i hwyluso gweithio dwyieithog mewn cyfarfodydd mewnol eraill.	

Polisi Amgueddfa Cymru	Tu hwnt i gydymffurfiaeth	
	Rhagweithiol	Arloesol
Mae canllawiau sy'n cynorthwyo cydymffurfiaeth wedi'u gwreiddio yn ein prosesau cynllunio a strategol ar draws y corff e.e. asesu effaith ar benderfyniadau polisi; cydweithio â thrydydd parti gan gynnwys partneriaethau, rhwydweithiau, grantiau, tendro, ymgynghori, comisiynu a chynnal ymchwil.		
Mae ein prosesau creu cynnwys, cyfieithu a dylunio Cymraeg/dwyieithog mewnol yn arloesol ac rydym yn rhannu ein harbenigedd yn allanol ble bynnag y bo modd.		Penodir Saer Geiriau yn rhan o bob project mawr.
Wrth ddehongli ein casgliadau a rhannu straeon Cymru â'r byd, rydyn ni'n • creu cysylltiadau rhwng ein casgliadau a meysydd arbenigedd â'r Gymraeg • plethu stori'r iaith i'n gwaith ble bynnag y bo modd • annog ein gweithlu i ymfalchïo yn y Gymraeg ac yn niwylliant Cymru. • ymgorffori'r Gymraeg mewn testun a chynnwys Saesneg ble bynnag y bo modd (lluosieithrwydd).		Caiff swydd Curadur y Gymraeg ei chreu.

DIOLCH